

ECAD6003C

**Ymchwil i'r paratodau presennol ar gyfer
ymgorffori gofynion y 'cwricwlwm Donaldson' yng
Nghyfnod Allweddol 2**

1600808

Iolo Roberts

BA Anrhydedd Addysg Gynradd gyda SAC

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Ebrill 2019

Datganiad

Hyn sydd i dystio mai fy ngwaith i yn unig ydy'r prosiect ymchwil hwn. Ysgrifennir y cyfan yn fy ngeiriau'n hun gan eithrio'r hyn a gyfeiriwyd at a ddyfynnwyd yn y fy ngwaith gan gyfeirioddi'n glir a chywir. Ni chyflwynwyd y prosiect hwn nac unrhyw rhan ohono o'r blaen a thystiaf mai hwn yw'r tro cyntaf iddo gael ei gyhoeddi fel rhan o radd BA (Anrh) Addysg Gynradd gyda SAC ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Deallaf bod unrhyw waith a ddefnyddiwyd heb wedi'i gyfeirio ato yn weithred o lèn-ladrad a fydd yn arwain at fethu'r modiwl hwn.

Diolchiadau

Hoffwn ddiolch i'r sawl sydd wedi cyfrannu mewn unrhyw ffordd i'r prosiect yma. Diolch i ddarlithwyr y brifysgol am eu holl waith, mewnbwn a chymorth. Hoffwn gydnabod a diolch i Sioned V Hughes am ei chefnogaeth ac arbenigedd yn ystod y modiwl ac fel tiwtor. Yn olaf, hoffwn estyn diolch gwresog i holl staff, disgyblion a rhieni Ysgol A a fu ynghlwm a'r ymchwil a gwerthfawrogaf eu cyfranogiad, cefnogaeth a chroeso yn ystod y cyfnod casglu data. Heb y rhain ni fyddai'n bosib cyflawni'r prosiect.

<u>Cynnwys</u>	Tudalen
1.0 <u>Cyflwyniad</u>	6-7
1.1 <i>Nod a Rhesymwaith</i>	6
1.2 <i>Cefndir yr Astudiaeth</i>	6
1.3 <i>Damcaniaeth Cychwynnol</i>	7
1.4 <i>Dulliau Ymchwil</i>	7
1.5 <i>Dadansoddiad Cwestiwn</i>	7
2.0 <u>Adolygiad Llenyddiaeth</u>	8
2.1 <i>Cwricwlwm presennol y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2</i>	8
2.2 Datblygiadau Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol	8
2.3 Rhesymwaith dros newid a chyflwyno cwricwlwm newydd	10
2.4 Heriau Wrth Gyflwyno Cwricwlwm Newydd	12
3.0 <u>Methodoleg</u>	15
<u>3.1</u> Moeseg	15
<u>3.2</u> Dulliau Ymchwil	16
<u>3.3</u> Cyfyngder y Fethodoleg	16
4.0 <u>Canlyniadau a Thrafodaeth</u>	18
4.1 Ymateb y Disgyblion	18
4.1 Holiaduron Athrawon / Cynorthwywyr Ysgol A	19
4.2 Arsylwi Dosbarthiadau Cyfnod Allweddol 2	22
5.0 <u>Casgliad</u>	23
6.0 <u>Cyfeirnodau</u>	25

7.0 Atodiadau

Atodiad 1:	Ffurflen Foeseg (Turn it in darn B)	
Atodiad 2:	Holiadur Athrawon / Cynorthwywyr	29
Atodiad 3:	Cwestiynau Plant	31
Atodiad 4:	Nodiadau Arsylwadol	32

1.0 Cyflwyniad

1.1 Nod a Rhesymwaith

Bwriad y prosiect ymchwil yw datblygu ag ehangu ar wybodaeth yr ymchwilydd o ofynion y Cwricwlwm newydd sy'n datblygu yng Nghymru yn ôl adroddiad Graham Donaldson, Dyfodol Llwyddiannus (2015). Cynhelir yr ymchwil mewn ysgol gynradd yn ne orllewin Cymru, sydd eisoes yn arbrofi gydag arddulliau newydd a argymhellir gan Donaldson (2015) ac sydd wedi eu hymgorffori yn y Cwricwlwm Newydd i Gymru (Llywodraeth Cymru, 2018). Pwrpas yr ymchwil yw ceisio darganfod sut mae ysgolion yn dechrau paratoi ar gyfer cyflwyniad y cwricwlwm newydd, wrth addasu eu dulliau o gynllunio ac addysgu. Gobeithir gweld sut y bydd y cwricwlwm newydd yn cael ei weithredu o bosibl yn y dyfodol wrth gynnal yr ymchwil hyn. Penderfynwyd dewis y maes ymchwil hwn oherwydd bod yr ymchwilydd yn bwriadu cychwyn ar yrfa yn y proffesiwn ym mis Medi, ac o ganlyniad fe fydd y newidiadau hyn yn ofynion y cwricwlwm newydd, yn sicr o ddylanwadu ar ei ddatblygiad proffesiynol parhaus yn y dyfodol.

1.2 Cefndir yr Astudiaeth

Ym mis Medi 2012, bwriad Llywodraeth Cymru y bydd ysgolion yn defnyddio'r Cwricwlwm Newydd i Gymru, Cwricwlwm Am Oes i gynllunio'r addysgu a'r dysgu. Amcan y cwricwlwm newydd fydd i ddatblygu ag addysgu plant i fod y gorau gallant fod, trwy ffocysu ar gynnydd yn hytrach na chyrhaeddiad academiaidd a phrofion statudol. Fe fydd hyn yn newid chwyldroadol ym myd addysg yng Nghymru ac fe fydd gofyn am newid diwylliant ym meddylfryd cynllunio ac addysgu. Hynny yw, fe fydd gofyn i addysgwyr fod yn llawer mwy creadigol wrth gynllunio a theilwra'r cwricwlwm o gwmpas gofynion y dysgwyr yn eu cymunedau yn hytrach na dilyn yn ddeddfol y cwricwlwm presennol sy'n seiliedig ar sgiliau a gwybodaeth (Llywodraeth Cymru, 2008). Gyda'r cwricwlwm newydd fe fydd rhaid cynllunio'r addysgu a'r dysgu o gwmpas y pedwar diben (Donaldson, 2015) a'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad yn hytrach nac o amgylch meysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen (Llywodraeth Cymru, 2008) a'r pynciau yng Nghyfnod Allweddol 2 (Llywodraeth Cymru, 2008). Bydd hyn yn newid enfawr i'r strwythur sy'n cael ei ddefnyddio yn bresennol i gynllunio'r cwricwlwm mewn ysgolion.

1.3 Damcaniaeth Cychwynnol

Cred yr ymchwilydd bod awgrymiadau Donaldson (2015) yn gam positif ac adeiladol ymlaen ym myd addysg ac o blaid yr argymhellion hyn. Gobeithir y bydd yr ymchwiler yn arddangos bod ysgolion eisoes wedi cychwyn ar addasu a newid eu dulliau o addysgu wrth ddechrau ymgorffori rhai elfennau o'r Cwricwlwm Newydd I Gymru. Credir hefyd y bydd yr ymchwiler yn adnabod rhai heriau a fydd yn wynebu ysgolion wrth geisio ymgorffori argymhellion Donaldson (2015) yn y cwricwlwm presennol.

1.4 Dulliau Ymchwiler

Bwriedir cynnal ymchwiliad i'r testun dan sylw drwy ddefnyddio ystod eang o ddulliau ymchwiler yn cynnwys cyfweiliadau gydag athrawon, anfon holiaduron at athrawon, arsylwadau ar sut y gweinyddir y cwricwlwm presennol mewn ysgolion. Bwriedir hefyd cynnal adolygiad llenyddiaeth yn dadansoddi'n feirniadol y llenyddiaeth ar ddatblygiad y cwricwlwm yng Nghymru a'r rhesymwaith dros gyflwyno cwricwlwm newydd a hefyd goblygiadau posibl cyflwyno'r cwricwlwm newydd ar athrawon a dysgwyr.

1.5 Dadansoddiad Cwestiwn

Bwriedir yn gyntaf canolbwyntio ar ddatblygiad y cwricwlwm yng Nghymru a pham yr angen am ddiwygio a chyflwyno cwricwlwm newydd. Cyfeirir at ddamcaniaethau ac adroddiadau rhyngwladol am arferion da cwricwlwm newydd ar ddysgwyr. Yn ail ymchwiler i'r paratodau sydd ar y gweill ar hyn o bryd mewn ysgolion wrth baratoi am y cwricwlwm newydd. Yn olaf, ymchwiler a thrafodir yr heriau posibl wrth geisio ymgorffori holl ofynion y cwricwlwm newydd, yn arbennig yng nghyd-destun athrawon Cyfnod Allweddol 2. Pwysig wrth gynnal yr ymchwiliad yw bod yn ystyrlon o'r meysydd hyn er mwyn creu ymateb cynhwysfawr sy'n addysgol ac yn ymdrin yn broffesiynol â'r maes.

2.0 Adolygiad Llenyddiaeth

Bwriad y bennod hon yw trafod yr hyn a ddywedwyd am y cwricwlwm presennol a'r cwricwlwm arfaethedig gan ddamcaniaethwyr ag athronwyr ac ymchwilwyr. Gwneir hyn drwy edrych ar y cwricwlwm presennol, yr hyn sydd wedi cael ei ddweud hyd yn hyn am y cwricwlwm presennol a hefyd cyfeiriadau at y cwricwla mewn gwledydd rhyngwladol sy'n perfformio'n uchel.

2.1 Cwricwlwm presennol y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2:

Ym 1847 cyhoeddwyd Adroddiad ar addysgu yng Nghymru gan Gomisiwn y Llywodraeth sef 'Brad y Llyfrau Gleision'. Roedd yn nodi yn yr adroddiad bod dyfodol yr iaith Gymraeg mewn perygl ac roedd yn rhoi y bai ar fethiant addysg yng Nghymru ar y Gymraeg. Yn ôl Deddf Addysg 1870, penderfynwyd mai Saesneg fyddai cyfrwng addysg ysgolion ac mewn rhai ysgolion roedd cosb am siarad Cymraeg, sef y 'Welsh Not'. Rhoddwyd pwyslais ar y '3Rs' sef 'Reading', 'Writing' ac 'Arithmetic'. Agorwyd yr Ysgol Gymraeg gyntaf yng Nghymru yn 1939. Egyr Ysgol Gymraeg Aberystwyth ym mis Medi gan Syr Ifan ap Owen Edwards, a oedd yn poeni fod yr iaith Gymraeg yn cael ei ddirywio gan yr iaith Saesneg (BBC, 2014). Nid oedd addysg yn y cyfnod hwn yn wahanol iawn i'r hyn rydym yn gyfarwydd â heddiw, nid oes llawer wedi newid (Currie-Knight, 2016).

Heddiw, mae'r cwricwlwm cenedlaethol wedi cael ei drefnu i bynciau sy'n cael ei haddysgu i blant a phobl ifanc ar draws y wlad. Mae'r cwricwlwm yn cael ei ddefnyddio gan ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd i sicrhau fod yr unigolion hyn yn derbyn addysg sy'n unfath i'w gilydd. Amlinellir hefyd y disgwyliadau a chyraeddiadau dylai plant gwneud ar hyd eu taith addysgiadol. Yn wahanol i hyn, nid yw ysgolion preifat ac academiaidd yn dilyn y cwricwlwm cenedlaethol. Wedi dweud hyn mae'n ofynnol i'r ysgolion hyn addysgu cwricwlwm cytbwys, gan gynnwys iaith, mathemateg a gwyddoniaeth (Schools and Education, Dyddiad anhysbys).

I ddarparu addysg o'r radd flaenaf, rhannir y plant i ddau gyfnod dysgu (mewn ysgolion cynradd): Yn 2008, amlinellwyd model newydd o addysgu plant 3 – 7 mlwydd oed gan Lywodraeth Cymru. Penodwyd fel y Cyfnod Sylfaen, rhaglen a ffocysir ar brofiadau, sgiliau a dysgu drwy chwarae (Llywodraeth Cymru, 2016). Rhannwyd y fframwaith i 7 maes dysgu:



(Llywodraeth Cymru, 2018)

O fewn y meysydd dysgu uchod, bu'r plant yn datblygu sgiliau sylfaenol a fydd yn gymorth iddynt yn y dyfodol. Yn ôl Llywodraeth Cymru (2018) mae'r fframwaith yn un sy'n ceisio annog creadigrwydd a chael hwyl wrth wneud. Hefyd, mae yna bwyslais cadarn ar y byd sydd o gwmpas y plant, gan annog cyfleoedd i ddeall y byd a'i rinweddau. Elfen sy'n cael ei chlodfori gan ddanmcniaethwyr yw'r cysyniad o weithio yn ymarferol, gyda'i dwylo yn hytrach na ddefnyddio papur. Enghraifft gadarnhaol o'r gweithrediad hon yw gwaith a noda Piaget fod defnyddio gweithredoedd o'r fath yn cynnig cymorth buddiol iawn i ddatblygiad seicolegol plant (Blake a Pope). Hefyd, adeilada ar waith grymys Vygotsky "The activity theory calls attention to knowledge that is created in a negotiation/interaction among people and that people appropriate knowledge." Amlinella dadansoddiad yr athronwyr uchod fod dull y cyfnod sylfaen yn ddull hynod effeithiol o wthio datblygiad plant i'r gorau gallant fod.

Yn wahanol i weithrediad y Cyfnod Sylfaen, caiff cyfnod allweddol 2, 7-11 mlwydd oed, ei rannu i bynciau: Cymraeg, Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth, Dylunio a Thechnoleg, Hanes, Celf, Daearyddiaeth, Cerddoriaeth, Addysg Gorfforol, Fframwaith Cymhwysedd Digidol, Ieithoedd Modern Tramor ac Addysg Grefyddol (Llywodraeth Cymru, 2015). Dywed CCSS (2017) bod addysg draddodiadol Cyfnod Allweddol 2 yn golygu bod plant yn gyfyngedig i fyrddau; yn gwrando ar wybodaeth yr athro am sesiwn gyfan; yn cwblhau sesiynau ar daflenni gwaith; a bod pob plentyn yn derbyn gwybodaeth debyg.

2.2 Datblygiadau Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol

I ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant, creuwyd y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, FfLIRh, ar lefel cenedlaethol. Gwnaethpwyd y fframwaith yn statudol ym Mis Medi 2014 dan adran 108(9) o Ddeddf Addysg 2002 (Llywodraeth Cymru, 2013). Bwriad y fframwaith hwn oedd plethu ac ategu at fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2008). Amlygir fod y FfLIRh yn defnyddio sgiliau plant ac yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau ar draws y cwricwlwm yn hytrach na ddefnyddio gwybodaeth mewn un pwnc ar y tro. Diffinia'r fframwaith sgiliau frawddeg allan o Ddeddf Diwygio Addysg (1998) a nodir pwrpas y cwricwlwm fel "paratoi... disgyblion ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd pan fyddant yn oedolion." Arweinia'r honiad i'r ymchwilydd feddwl fod y Llywodraeth yn gwneud popeth yn gallant i sicrhau addysg o'r radd flaenaf i'n plant yn ein hysgolion. Darllena hefyd, "Nad yw'r Gorchmynion pwnc cyfredol yn ddigon ar eu pen eu hunain i fodloni'r gofyniad hwn, gan fod nifer ohonynt yn rhoi pwyslais ar wybodaeth fanwl o bwnc yn hytrach nag ar ddatblygu sgiliau" (Llywodraeth Cymru, 2008). Yn amlwg mae'n bwysig i gofio taw'r llywodraeth yng Nghymru sy'n amlinellu'r trywydd i addysg i bob plentyn yn ein hysgolion. Os nad ydynt hwy yn hapus gyda beth maent yn eu gwneud, pa hwyl caiff athrawon yn y maes?

Yn dilyn cyflwyniad y FfLIRh cyhoeddwyd fframwaith newydd, arall, i ychwanegu at rediad ysgolion yng Nghymru. Lluniwyd y Fframwaith Cymhwysedd Digidol, FfCD, ar ôl i grŵp annibynnol i ymchwilio a nodi'r ffordd ymlaen i ddatblygu a sicrhau gwelliant yn narpariaeth TGCh mewn ysgolion yng Nghymru. Y brif argymhell gan (Arthur, Crick & Hayward, 2013) oedd creu a datblygu fframwaith a'r un statws a'r FfLIRh. Cytuna D. Williams (2018) fod ddiwygio i gynnwys FfCD yn agwedd holl bwysig i fywydau plant gan ei fod yn canolbwyntio ar addysgeg sydd yn newid, ac yn gallu datblygu gyda thaith plant yn yr ysgol. Mae'r fframwaith, sydd bellach ar waith mewn ysgolion, yn ffocysu ar ddefnydd gweithredol technoleg yn hytrach na drosglwyddo gwybodaeth i blant. Bwriad y llywodraeth yw i ddarparu fframwaith sy'n hyblyg i wella medrau disgyblion i lwyddo fel dinasyddion yn yr 21ain ganrif (Estyn, dim dyddiad). Amlyga'r llywodraeth ei ymrwymiad i lwyddiant y FfCD gan fuddsoddi'n sylweddol maen ysgolion i sicrhau fod adnoddau ar lawr y dosbarth i ysgolion. Hefyd, mae datblygiad hyfforddiant ac adnoddau ar lein yn arwyddocaol i hybu gweithrediad y fframwaith, a sicrhau fod safonau yn codi mewn ysgolion ac yn sicrhau cynnydd mewn addysg (Llywodraeth Cymru, 2018).

2.3 Rhesymwaith dros newid a chyflwyno cwricwlwm newydd

Ym Mis Mawrth 2014 ofynnwyd i'r athro Graham Donaldson, gan Lywodraeth Cymru, i edrych a beirniadu'r cwricwlwm a threfniadau asesu bresennol yng Nghymru, a'u hadolygu. Barn Llywodraeth Cymru yw fod llawer o agweddau da yn digwydd wrth feirniadi addysg ein plant ond pwysleisir yr eisiau a/r angen i sicrhau fod pop dim yn cael ei wneud i allu darparu addysg o'r radd flaenaf i blant ein cenedl. (Llywodraeth Cymru, 2015). Awgrymir y wybodaeth uchod fod cyrhaeddiad addysg bresennol Cymru yn dda, a'r bwriad yw sicrhau cynnydd o wellhad. Yn anffodus pan ystyrir canlyniadau asesu Pisa yn 2009, "The mean score of pupils in Wales was significantly lower than that in the other parts of the UK" (PISA, 2010). Wrth edrych yn ddyfnach ar gyrhaeddiad addysgiadol Cymru i gymharu â gwledydd mwy economegol datblygiedig, GMED. Gwelir ystadegau gwarthus, gyda Chymru y tu ôl ym mhob catagori. Daith y canlyniadau hyn fel braw a gwriad realiti i weinidogion Cymru gyda Leighton Andrews (2011) yn ei alw yn "A wake up call to a complacency system". Yn ddiau, fe fyddai'r llywodraeth wedi targedi'r elfennau gwan hyn cyn profion PISA 2015? Dyma'r canfyddiadau gymedrig:

	<i>Sgôr cymedrig Cymru</i>			
	2006	2009	2012	2015
Mathemateg	484	472	468	478
Darllen	481	476	480	477
Gwyddoniaeth	505	496	491	485

(PIGION, 2017)

Dangosa'r uchod ffeithiau anffodus ac annerbyniol iawn am statws addysg yng Nghymru ar hyn o bryd. Deallir yr ymchwilydd fod diwygio addysg ar lefel cenedlaethol yn fater difrifol iawn, nid yw'n bosib gwneud newidiadau syfrdanol dros nos. Agwedd amlwg sy'n codi yw bod safon addysg yng Nghymru wedi cael ei adnabyddi fel agwedd sydd angen gwella ond arhoswyd tan 2014 i ofyn am gymorth. Mae'n rhaid ystyried felly beth oedd gweithrediad y Llywodraeth, os oeddent yn ymwybodol o'r cwmp mewn safon pam arhoswyd tan 2014 i'r athro Graham Donaldson.

Nid yw'n gyfrinach felly fod adolygiad Donaldson yn cael ei weld fel archarwr i'r sawl sy'n ynghlwm ag addysg yng Nghymru. Efallai fod rhan o ddiwygiad y cwricwlwm hefyd yn plethu gyda'r nifer o athrawon sy'n gadael maes addysg yng Nghymru. Dywed The Independent (2017) fod 50% o athrawon y DU wedi ystyried gadael maes addysg yn gyfan gwbl, gyda 10,000 wedi gadael rhwng 2010 a 2015 o dan amgylchiadau yn cynnwys pwysau gwaith a straen meddyliol. Yn ogystal â hyn honnir fod tua 15,000 o athrawon yn gadael y wlad i addysgu tramor, mewn ysgolion rhyngwladol (The Guardian, 2018). Rhaid cofio mae athrawon sydd yng nghanol y stigma presennol at addysg yng Nghymru ac nid gwthio hwy i ffwrdd y dylid ei wneud os mai bwriad yw codi safonau.

Rheswm arall am ddiwygiad y cwricwlwm presennol yw'r defnydd o drefniadau asesu yng Nghymru. Cyhoeddwyd Llywodraeth Cymru (2014b) fod defnydd y trefniadau presennol yn wan, ac nid ydynt yn cael ei ymgorffori yn y system addysg. Ar lefel cynradd ag uwchradd, arsylwodd Estyn wahaniaethau ag anghysondebau yn y ffordd roedd athrawon yn targedu a rhoi arweiniad i'w plant yn y dosbarth. Dim ond mewn hanner ysgolion Cymru yn unig a arfarnwyd bod athrawon yn rhoi adborth defnyddiol i blant (Estyn, 2016a).

Rheswm arall sydd wedi arwain at ddiwygiad y cwricwlwm yw'r ffordd mae'r Llywodraeth yn arianu ysgolion yng Nghymru. Y ddadl fwyaf yw fod awdurdodau lleol, sydd ddim wedi fod ynghlwm mewn addysg, yn gyfrifol am ariannu ysgolion Cymru. Dadleuir fod angen y Llywodraeth symud i greu "Needs-based school-funding formula, which is believed to be the most efficient, equitable and transparent method of funding schools." (Levačić, R. 2006). Hefyd, darganfyddodd ymchwiliad OECD (2014) fod nifer fawr o grantiau ar gael i ysgolion i wella addysg i blant dan anfantais, ond nid yw system addysg Cymru yn rhoi'r arian i'r plant sydd ei hangen mwyaf.

2.4 Heriau Wrth Gyflwyno Cwricwlwm Newydd

Dadleua Ervin et al. (2014) mai'r ffactor mwyaf dychrynlyd am addysg yw'r modd mae cystadleuaeth wedi ymgorffori mewn addysg ar draws y byd. Ychwanegwyd fod pob gwlad yn ceisio fod y gorau i lwyddo a chyrraedd brig y goeden addysgol ryngwladol. Cwestiynwyd hefyd, wrth edrych ar addysg ryngwladol, ar ba effaith caiff y gystadleuaeth hon ar y gwledydd. Pe edrychir ar ryngweithio fel gwledydd yn ein gweithredoedd addysgol, ac yna rhannu syniadau, ni fydd mater o gofnodi cyrhaeddiad disgyblion yn ymyrryd gyda'r broses o gyd-weithio rhyngwladol. Hefyd, cyhoeddir erthygl gan The Conversation (2017) fod sgoriau

plant mewn prawf ddim yn dangos y llun cyfan am safon addysg mewn gwledydd ar draws y byd. Felly os ddiwygwyd y cwricwlwm am reswm megis canlyniadau profion; a ydynt yn gywir wrth gael y canlyniadau gywir? Gall sawl ffactor effeithio'r sgoriau felly a fydd newidiad radical wir yn codi safonau yn ein gwlad?

Cyflwynwyd ycwricwlwm newydd yn yr Alban yn 2010 a elwir yn "The curriculum for Excellence". Creuwyd y cwricwlwm ar sail cysyniadau megis lleihau'r nifer o asesiadau a phenodi ffocws ar ddatblygu cwricwlwm cynhwysfawr sy'n rhoi profiadau i blant a phobl ifanc (Llywodraeth yr Alban dim dyddiad). Yn ôl gwaith ymchwil Ashman (2017) awgrymwyd fod pwysau gwleidyddion yn rhoi dylanwad negyddol ar y broses a chynnwys y cwricwlwm. Yn dilyn gweithrediad cychwynnol y cwricwlwm, gorfodwyd i John Swinney ddiwygio'r cynnwys ag ymgorffori asesiadau ychwanegol, elfen oedd eisoes wedi cael ei o'r edrych. Nodwyd hefyd gan yr OECD (2014) fod cymhlethdod radical y system yn anfantais syfrdanol i'r cwricwlwm diwygiedig. Pwysleisiwyd fod angen hyfforddiant dilys sy'n galluogi athrawon i ddeall yr hyn sy'n ofynnol ohonynt. Amlygir pa mor hanfodol yw cyd-weithio a thrafod yn y maes gan nad oedd yr athrawon ynn sicr o ofynion Llywodraethol. Dyweda Ashman (2017) "A good teacher with a bad curriculum is likely to do better than a bad teacher with a good curriculum", amlygir eto fod yn rhaid cael cysylltiadau cadarn rhwng llunwyr polisïau a'r gweithredwyr i ddarparu'r addysg gorau posib. Efallai bod angen edrych ac ystyried safon hyfforddon addysg yn y wlad. Rhan o'r datrysiad yw'r cwricwlwm ond rhaid peidio â thafu i'r gwynt y dull maent yn hyfforddi athrawon. Disgwylir addysg o'r radd flaenaf i'r plant, felly mae'n rhaid disgwyl safon gyson a rhagorol i'r unigolion sydd yn y maes eisoes yn ogystal â'r unigolion sydd yn y broses o hyfforddi.

Yng nghyd-destun addysg yng Nghymru, tala Donaldson (2015) deyrnged tuag at unigolion mewn addysg a rhodd amser iddo i'w cyfweiddaethu a thrafod bwriadau am ddiwigiad y cwricwlwm. Dywedwyd fod defnyddio ystod eang o wybodaeth gan blant, rhieni, athrawon a chymunedau i wneud penderfyniadau a chasgliadau am ddyfodol ein haddysg yn eiraidd i lwyddo. Annoga Donaldson (2015) fod cyd-weithio yn hanfodol i aelodau mewn addysg. Credir ar ddiwedd y dydd, bod pob addysgwr gyda'r un bwriad sy'n graidd i'w credoau, sef annog pob dysgwr sydd yn eu gofal.

Disgrifia Bolin et al. (1992) fod arloesedd yn digwydd mewn cyd-destun penodol:

Life and death of an innovation are not simply a matter of providing appropriate supports for the innovation and making mutual adjustments as it is being installed. Rather, life and death of an innovation depend on the unique configuration of social, historical, political and ideological factors that make up the school and its social, community context.

(Bolin et al. 1992)

Dangosa'r ddiffiniad uchod agwedd allweddol i ddarparu gweithredoedd arloesol addysgol. Amlygir y ddadl fod yn rhaid i gwricwlwm weithio a fod yn realistig i'r gymuned wladol. Cydnabyddia Donaldson agweddau arloesol debyg gan ddatblygu'r Cwricwlwm Cymreig a phwysleisio ei bwysigrwydd o fewn addysg plant y wlad.

Noda Schwartz and Cavener (1994) "Schools are culture systems of human relationships, traditions, ideas, attitudes and ways of doing things" a gwnaethpwyd cysylltiad amlwg gydag amgylchoedd amrywiol a chymhlethdod i ymgorffori cwricwla'u newydd. Golyga hyn gwahanol bethau i wahanol ysgolion. Mewn un ysgol efallai fod problem ddifrifol o ymddygiad plant, sy'n amharu'n fawr ar addysg garfan y dosbarth. Mewn ysgol arall gall fod anawsterau cyfathrebu rhwng yr ysgol a'r cartref sy'n arwain at dorriad mewn perthynas rhwng y ddau. Gall cwricwlwm fethu yn syth os nad yw pob ongl posib wedi cael ei ystyried cyn rhyddhau'r canllawiau i'r sector. Rhaid sicrhau fod pawb ar yr un tudalen a fod pob unigolyn yn symud ymlaen gyda'i gilydd heb gadael neb yn y tywyllwch (Bennie a Newstead 1999).

3.0 Methodoleg

Bwriad y bennod hon yw disgrifio a thrafod y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gynnal yr ymchwil ar y paratodau sydd ar y gweill mewn ysgolion nawr wrth baratoi at ymgorffori gofynion y cwricwlwm newydd. Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau yn cynnwys cyfweiliadau, arsylwadau a holiaduron. Cyfeirir hefyd yn y bennod at bwysigrwydd moeseg wrth gynnal gwaith ymchwil.

3.1 Moeseg

“Children learn best by doing” (Coward, 2016).

“It is a process whereby knowledge is created through the transformation of experience” (Kolb, 1984).

“As students learn from experience they may engage in a process of trying to resolve the conflict between contradictory ideas” (Piaget, 1930).

Cyn cychwyn y broses ymchwilio cwblhawyd cais am gymeradwyaeth foesegol i gyfiawnhau gweithredoedd a'r dulliau ymchwil. Hefyd, pwrpas y ffurflen oedd sicrhau bod y gwaith ymchwil yn ddibynnol, yn deg ac yn gywir (Atodiad 1). Wrth ymchwilio cydnabuwyd cyfrinachedd y rhandaliad a chyfranogwyr yn y gwaith. Mae'r ymchwil yn dilyn canllawiau BERA ac yn ystyried y cyfranogwyr sy'n cymered rhan. Dywedir BERA (2018:6)

“Researchers must recognize the right of any participant to withdraw from the research for any or no reason, and at any time, and they must inform them of this right”. Ystyriwyd y feriniadaeth uchod drwy ofyn i'r gyfranogwyr ar bob adeg oes oeddent yn hapus a'i beidio i barhau, a rhoi cyfleoedd ar yr holiadur i beidio ag ateb os nad ydynt eisiau. Cydnabyddir hefyd bwysigrwydd ystyried hawliau plant wrth gynnal ymchwil gyda phlant ifanc a sicrhau eu caniatad wrth gynnal ymchwil.

Cwblhawyd yr ymchwil yn Ysgol A. Derbyniwyd caniatâd oddi wrth yr ysgol i arsylwi y dosbarthiadau yng nghyfnod allweddol 2. Tra bu'r ymchwilydd yn y dosbarth, bu'n amyneddgar iawn yn siarad a chyd-weithio gyda'r athrawon a'r plant oherwydd yr oedd yn ystyrlon o'r ffaith fod yr ysgol yn weithredol a fod yr ymchwiliad yn rhywbeth ychwanegol i'r

ysgol rhoi gymorth iddo. Teimlwyd y byddai'n elwa'n fwy wrth ymdrechi i estyn cymorth at bethau gweithredol yr ysgol pan fyddant yn gofyn amdano.

Esboniwyd yn glir i bob un o'r cyfranogwyr ar ddechrau'r ymchwil beth oedd bwriad yr ymchwilydd i sicrhau dealltwriaeth rhwng pob rhandeilliad. Roedd cyflwyno'r ymchwiliad ar y cychwyn gan yr ymchwilydd hefyd yn rhoi digon o amser i'r athrawon a chynorthwyon i feddwl am syniadau a chasglu barnau am y maes. Cymerodd yr ymchwilydd amser cyn cynnal trafodaethau dwys gyda'r athrawon er mwyn sicrhau eu bod yn teimlo'n gartrefol yn ei gwmni i dderbyn atebion gonest, o'r galon.

3.2 Dulliau Ymchwil

Penderfynwyd defnyddio cyfweiliadau gan ei fod yn rhoi'r cyfle i'r ymchwilydd ddod i nabod y cyfranogwyr yn dda, a gweld atebion yn y person cyntaf o'r cyfranogwyr. Er hynny ceir anfanteision wrth ddefnyddio cyfweiliadau megis strwythr cyflwyno neu diffyg dealltwriaeth rhwng y cyfranogwr a'r ymchwilydd.

Penderfynwyd defnyddio holiaduron i weld yn union beth oedd teimladau'r cyfranogwyr am y maes heb yr ymchwilydd yn bresennol, bu'r atebion yn gudd. Er hynny ceir anfanteision wrth ddefnyddio holiaduron megis diffyg amser cyfranogwyr i ateb neu amhariad ar rediad dosbarth. Bydd rhaid sicrhau fod y cyfranogwyr yn hapus i ateb ac yn deall y gallant wrthod ateb yr holiadur os fydd angen, gan fod yr ymchwilydd yn dilyn canllawiau BERA.

Penderfynwyd defnyddio arsylwadau gan ei fod yn rhoi darlun realistig, gweithredol i'r ymchwilydd i'w gweld yn y profiad. Er hynny ceir anfanteision wrth ddefnyddio arsylwadau megis trefn yr amser yn yr ysgol, gan fod yr ymchwilydd yn yr ysgol am amser byr, mae'n hanfodol i sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar agweddau sydd dan ei sylw.

3.3. Cyfyngder y fethodoleg

Gwynebwyd nifer o heriau a rhwystrau yn Ysgol A wrth gyflawni'r ymchwil. Nid yw'n gyfrinach fod amser yn peth prin iawn mewn ysgolion felly oedd sicrhau cyfnodau holi yn anodd iawn. Hefyd bu'r ymchwilydd yn dioddef o sâlwech yn ystod y cyfnod a amharwyd yn negyddol ar y profiad. Yn ychwanegol i arsylwadau ysgol A, gwnaethpwyd hefyd arsylwi

arferoedd ar brofiad dysgu proffesiynol. Cymerwyd camau tebyg yn Ysgol B i sicrhau cyfrinachedd a chywirdeb yn yr ymholi.

Pe bai'r ymchwilydd yn cael cyfle i ail-wneud yr ymchwiliad hwn, hoffir ychwanegu elfennau i sicrhau dysgu llwyddiannus. Yr elfen hoffir ychwanegu yw'r nifer yr ysgolion i'w cyfweld maent yn ymweld yn ystod y cyfnod. Bwriedir hefyd Efallai i'r tro nesaf gall yr ymchwilydd cwblhau'r prosiect dros gyfnod hirach a fyddai'n caniatáu ymweld â mwy o ysgolion a phrofi ethos yr ysgolion penodol hynny. Cynigir hyn gyfle i'r ymchwilydd gael ystod eang o ganlyniadau ac ymatebion amrywiol. Yn debyg i'r ffordd ymchwiliodd Donaldson (2015) i ysgolion yng Nghymru, bu'n hanfodol i ymchwilio i nifer o ysgolion er mwyn dod at gasgliad grymus.

4.0 Canlyniadau a Thrafodaethau

Bwredir trafod y canlyniadau a dadansoddi'r data a'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod yr ymchwiliad. Casglwyd y data o Ysgol A ac Ysgol B gan athrawon, cynorthwywyr a sylwadau plant. Bwriedir trafod ymateb y disgyblion yn gyntaf, yna canlyniadau'r holiaduron gan orffen gyda'r arsylwadau.

4.1 Ymateb Disgyblion

Cymerwyd y cyfle i sgwrsio a threulio amser gyda phob blwyddyn yng Nghyfnod Allweddol 2 yn yr ysgol er mwyn sicrhau. Drwy dreulio amser gyda phob blwyddyn, sicrhawyd fod y wybodaeth a gasglwyd yn gyfartal i ddangos gweithrediad yr ysgol gyfan, yn hytrach na un grwp yn unig. Penderfynwyd cynnal sgwrs gyda dysgwyr blynyddoedd 5 a 6 yn gyntaf gan fod siarad gyda unigolion hŷn yr ysgol yn gyfle i gael sgysiau aeddfed gyda phlant yr ysgol. Galluogodd hyn i'r ymchwilydd hefyd drafod gyda unigolion a oedd yn dod at ddiwedd eu taith yn yr ysgol gynradd. Roedd y ~~mae'r~~ plant eisioes wedi profi gweithredoedd yr ysgol ac yn gallu siarad yn eglur a chyflwyno gwybodaeth synhwyrol am arferion yr ysgol.

Cafwyd trafodaethau trylwyr gyda disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn ysgol A. Trafodwyd amryw o bwyntiau gyda'r plant gan gychwyn gyda rhediad diwygiedig yr ysgol. Amlyga'r plant fod yr ysgol yn ymwybodol o wahaniaeth darpariaeth addysgol maent wedi derbyn yn ddiweddar gan yr ysgol. Arweiniwyd y sgwrs i drafod am y defnydd o'r mat yn y dosbarth, lle mae'r plant yn eistedd yn y bore cyn cychwyn y dydd. Roedd y plant yn hapus gyda'r trefniadau newydd hyn oherwydd yr oeddent yn teimlo fod yr athrawes yn poeni mwy amdanynt ac yn teimlo'n gyfforddus ar y carped yn hytrach na chadeiriau anghyfforddus.

Elfen ddiddorol a ganfu'r ymchwilydd oedd hapusrwydd y plant yn yr ysgol, yn enwedig ym mlynnyddoedd 5 a 6. Amlygodd y plant fod eu teimladau a'i diddordebau yn cael ei ystyried yn yr ysgol pan maent yn cynllunio'r dysgu. Mynegwyd llais y plentyn yn gryf a fod dysgu yn digwydd yn ôl trywydd y plant. Pwysleisia chredoau Donaldson (2015) fod angen darparu addysg berthnasol a phwrpasol sy'n gwella cyfranogiad disgyblion (Estyn, 2014). Yn ogystal a hyn, nid oedd y plant yn yr ystafell ddosbarth drwy'r dydd. Gnwaethpwyd llawer o ddefnydd o'r gwagle a lle ychwanegol oedd yn yr ysgol pan fyddant yn cwblhau sesiynau. Teimlwyd y plant fod symud o amgylch a newid amgylchedd dysgu yn elfen cadarnhaol iawn iddynt.

Datblyga'r addysgeg hyn gyda un o argymhellion Donaldson (2015) sef "Defnyddio ystod eang o ddulliau addysgu". Fel ymchwilydd, arsylwyd fod y plant yn ysgol A yn dawelach ac yn bwrw ymlaen gyda gwaith yn dda o ganlyniad i'r strategaeth hon. Golyga hyn fod plant penodol ddim yn treulio gormod o amser gyda'i gilydd yn ystod y diwrnod, cynniga hyn gyfle iddynt ganolbwyntio hebgael eu gwrthdynnu o'r sesiynau.

Cafwyd y cyfle i fynychu taith breswyl, addysgiadol gyda blynyddoedd 3 a 4 i Gaerdydd. Ffocws y daith oedd hybu annibyniaeth y plant yn y ddinas, gan fod llawer o'r plant heb gael cyfle i adael gartref heb y teulu am gyfnod o amser. Dangoswyd parodrwydd yr ysgol i ddefnyddio arian grant prydiau am ddim plant (PYDd) yn y modd cywir i ddatblygu profiadau buddiol i'r plant, elfen sydd yn aml yn cael ei o'r edrych fel y nodwyd gan OECD (2014). Hybwyd cydweithio gyda'r plant ar y daith, gwnaethpwyd hyn iddynt dyfu mewn hyder, ddarganfod ymddiriedaeth a chyfrifoldeb dros eu cyfoedion. Nodwyd fod y plant wedi dychwelyd i'r ysgol yn unigolion gwahanol, roedd newid syfrdanol yn y plant gan eu bod wedi gorfod cymryd cyfrifoldeb dros bethau ei gilydd megis arian a bagiau. Dilynwyd athroniaeth Donaldson (2015: 38) oherwydd mae'r profiadau amryw derbyniwyd y plant yn ehangu gorwelion a mwynhau phrofiadau cadarnhaol am y dysgu.

4.2 Holiadur Ar lein Athrawon / Cynorthwyr Ysgol A

Cynlluniwyd yr holiadur yn ofalus iawn er mwyn sicrhau y gorau allan ohonynt. Hefyd rhaid oedd sicrhau fod y cwestiynau yn dangos golwg cyfan o'r darlun yn hytrach na un elfen fechin (Parasuraman, 1991). Gwelir atodiad 2 a ddangosir y cwestiynau a ofynnwyd yn yr holiadur.

Cwblhawyd yr holiadur gan ystod o gyfranogwyr, fel y gwnaethpwyd Donaldson, i gael ymatebion amrywiol a theg. Rhoddwyd dau opsiwn i'r cyfranogwyr pan atebwyd yr holiadur. Yn gyntaf cynigwyd i aros gyda'r cyfranogwr a'u tywys drwy'r cwestiynau ar ffurf sgwrs. Penderfynwyd hefyd rhoi'r cyfle i'r cyfranogwyr gael tawelwch i ymateb i'r holiadur. Teimlwyd fod hyn yn strategaeth dda gan efallai fod y cyfranogwyd eisiau cadw atebion yn gudd a gwneud hyn heb boeni am fynegi barn a chael eu dal allan am ddweud rhywbeth personol.


I gael braslun ar deimladau'r cyfranogwyr gofynwyd am eu barn ar y cwricwlwm bersenol ar raddfa 1 – 5 (1 un ofnadwy, 5 yn rhagorol):



2.50 Average Rating

Amlyga'r canlyniad teimladau athrawon am yr hyn sy'n ofynnol iddynt wneud yn ddyddiol yn y dosbarth. Dangosir yn amlwg fod angen newid yng Nghymru a chyfiawnha'r datblygiadau presennol, dilyna teimladau athrawon i adael addysg i ddysgu tramor (Independent, 2017). Cwestiyna'r ymchwilydd felly a ydy'r teimladau hyn yn cael eu trosglwyddo yn y dysgu, fel agwedd negyddol at weithredoedd yn y dosbarth. Yn amlwg byddai hyn yn siomedig ym myd addysg broffesiynol felly gobeithiwyd fod athrawon yn gallu gadael llinell rhwng y byd gwleidyddol ac addysgiadol.

Plethir y cwestiwn hon gyda'r datganiad dilynnol: "A ydych yn edrych ymlaen at ddiwygiad y cwricwlwm". Dangosir y canlyniadau yn ffigwr 4.1:



Cynhyrfwyd yr ymchwilydd gydag ymatebion y cwestiwn uchod am sawl rheswm. Yn benodol, nid oedd unrhyw ymateb yn negyddol i'r cwestiwn. Dangoswyd fod y cyfranogwyr yn edrych i ddyfodol addysg i weld ble mae'n datblygu a pha ddyfodol sydd i addysg yng Nghymru. Wrth ddweud hyn, golygir yr ymchwilydd fod y cyfranogwyr gweithredol,

ganddynt fwriad a gweledigaeth i ddatblygu â symud ymlaen gyda'r amseroedd. Yn ogystal â hyn, amlygir fod y cyfranogwyr yn ymwybodol o ddatblygiadau addysg yng Nghymru a bod y cwricwlwm presennol wedi cael ei amser.

Wedi dweud hyn, poenir am yr ymatebion "Ddim yn siwr". Yn amlwg nid yw'r ymateb yn negyddol ond nid ydyw chwaith yn gadarnhaol. Pe bai'r cyfranogwyr ddim yn sier yn union beth sydd yn newid ym myd addysg gellir yn hawdd ymateb gyda'r ateb hwn. Tra'n ysgol A, arsylwyd llawer ar gyd-weithio athrawon a chynorthwyr. Gwelwyd amlygedd o hierarchaeth yn yr ysgol yn y modd fod cynorthwyr yn dilyn canllawiau'r athrawon. Pe bai'r athrawon yn derbyn hyfforddiant neu mewnbwn ar y cwricwlwm diwigiedig i ddatblygu eu haddysgu a asesu, efallai fod y cynorthwyr yn cael eu gadael ar ôl. Os na darparwyd hyfforddiant i'r cynorthwyr, ni fyddant yn ymwybodol ac yn gallu newid y dull maent yn gwneud gwaith i gyd-fynd gyda'r newidiadau. Siom fydd petai'r cynorthwyr yn cael eu anghofio oherwydd ar ddiwedd y dydd, maent ar lawr y dosbarth gyda'r athrawon yn ddyddiol. Os ydynt eisiau darparu addysg o'r radd flaenaf rhaid sicrhau cysondeb a chyfleoedd cyfartal i bob un o'r rhanddeiliaid sy'n gysylltiedig gyda'r datblygiadau.

Cwestiwn a roddai rhyddid i'r cyfranogwr fynegi eu hunain oedd "Yn eich barn chi, gallwch chi awgrymu un mantais posibl i'r cwricwlwm newydd?". Teimlwyd fod gofyn cwestiwn agored, rhydd, yn ffordd dda o gasglu data sy'n adlewyrchu problemau ac agweddau unigol athrawon yn yr ysgol gynradd. Dywed un cyfranogwr:

"Ffocws ar ddatblygu sgiliau bywyd pob plentyn mewn ffordd greadigol er mwyn iddynt ddatblygu'n unigolion annibynnol, medrus sy'n gallu ymdopi gyda'r byd technolegol yr ydym yn byw ynddi."

Amlygir yr ateb hon fod y gyfranogwr yn deall yn union beth yw bwriad a gofynion Donaldson gyda'r cwricwlwm diwigiedig. Amlinellwyd fod angen addysgu plant mewn ffordd creadigol, elfen sydd wedi cael ei anghofio yn addysg yng Nghymru. Hefyd, pwysleisir yr angen i greu cyflawnwyr annibynnol fel eu bod yn barod i'r dyfodol. Cytuna Perrier (2017) fod yn hanfodol i addysgu plant am yfory gan fod dysgu am heddiw rhy hwyr.

4.3 Arsylwi Dosbarthiadau Cyfnod Allweddol 2

Arsylwyd nifer o newidiadau yn nosbarthiadau ysgol B sy'n arwain y ffordd at ddiwygiad y cwricwlwm. Yn yr ysgol gwelwyd datblygiad yn symud tuag at weithredoedd Donaldson yng Nghyfnod Allweddol 2. Gwelwyd fod y dosbarthiadau yn gwneud 'heriau' yn y prynhawn yn hytrach na phwnc penodol. I sicrhau ymroddiad a chymhelliant plant, defnyddiwyd system grwpio gyda'r plant. Bob prynhawn, byddai'r athrawes yn cymryd grŵp o blant (6 i 8 yn y grŵp) ac yn cwblhau 'tasg ffocws' ganddynt. Dilynwyd strwythur y cyfnod sylfaen lle bu'r athrawes yn eistedd gyda'r grŵp sy'n sicrhau dealltwriaeth gyda phob aelod o'r grŵp gan fod fwy o amser gyda'r athrawes i dreulio gyda'r unigolion. Ar yr un pryd, bu gweddill y dosbarth yn gweithio'n annibynnol heb gymorth athrawes mewn ardaloedd amrywiol yn y dosbarth megis llythrennedd neu rifedd. Dangoswyd yr addysgu elfennau o gysyniadau a ffurfiwyd yn y cyfnod sylfaen. Mae'n ddull hollol newydd o addysgu yng nghyfnod allweddol 2 a ddangosir elfennau arloesol addysgol yn yr ysgol.

Cynigir ardaloedd yn y dosbarth cyfleoedd amrywiol i hybu addysg drawsgwricwlaidd ym mhob sesiwn. Pwrpas yr heriau yw atgyfnerthu sgiliau dysgu blaenorol, ac adeiladu arnynt. Dilynwyd syniad Vygotsky (1980) o adeiladu ar ddysgu blaenorol i ddatblygu sgiliau gwybyddol. Hefyd, byddai'r plant yn ymarfer dysgu yn annibynnol, heb gymorth, i hyrwyddo sgiliau bywyd plant. Diddorwyd arsylwi sut oedd plant yn datblygu'r sgil hon, ac yn tyfu'n unigolion hyderus gan ymarfer datrys problemau yn unigol heb ofyn cwestiynau i'r athro. Dilyna athroniaeth o weld y tu hwnt i'r nod dysgu, byddai plant yn gallu adnabod sgiliau gwahanol ac yn gallu ei ddefnyddio mewn ystod o feysydd gwahanol (Lobel, 2018).

5.0 Casgliad

Nod y traethawd ymchwil hwn oedd ymchwilio ac arsylwi ar baratoadau ysgolion i ymgorffori'r cwricwlwm newydd yn nosbarthiadau yng Nghyfnod Allweddol 2. Ymchwiliwyd i'r cwricwlwm presenol a defnyddio gwybodaeth rhyngwladol i geisio a chasglu safbwyntiau gwahanol am y maes.

Trwy ymchwilio i'r cwricwlwm presennol canfuwyd ein bod yn byw mewn cyfnod o ddatblygiadau arloesol a fydd yn newid addysg yn ein gwlad. Serch hynny, nid yw athrawon yn sicr eto o'r amgylchiadau a fydd yn newid gan fod y cwricwlwm diwygiedig heb eu cyflwyno iddynt. Canfuwyd i resymau a chymharu canlyniadau PISA gwledydd y DU gyda gweddill y byd. Yn sail ganolog i'r newidiadau yw'r modd y defnyddiodd Llywodraeth Cymru yr Athro Graham Donaldson i ymchwilio i'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru. Mabwysiadodd Llywodraeth Cymru holl argymhellion Donaldson (2015). Pwysleisia Donaldson fod ymchwil eang mewn ysgolion yng Nghymru yn hanfodol i'w llwyddiant gan ei fod yn derbyn cyfle i gyfarfod a thrafod agweddau addysgol gydag ystod eang o gyfranogwyr yn y wlad. Cydnabuwyd Donaldson fod gwneud hyn wedi bod yn fuddiol iawn iddo yn yr ymchwil a hyd yn oed wedi talu teyrnged iddynt yn ei adroddiad.

Datgelodd yr ymchwil brimaidd yn yr ysgolion fod rhai ysgolion yn ymwybodol o'r newidiadau enfawr yng ngofynion y cwricwlwm newydd. Gwelwyd bod rhai ysgolion yn ymgorffori gofynion y cwricwlwm newydd drwy gyflwyno dulliau dysgu'r cyfnod sylfaen yng nghyfnod allweddol 2 drwy greu ardaloedd yn y dosbarth ac yn dysgu yn ôl diddordebau llaid y plentyn (Estyn, 2018). Manteision hyn yw bod y dysgwyr yn ymroi yn fwy mewn sesiynau ac yn dangos diddordeb gan fod y dysgu yn dilyn eu syniadau eu hunain. Y prif heriau a welwyd wrth geisio ymgorffori'r cwricwlwm, yn yr ysgol a gwelwyd, oedd gwybodaeth a dealltwriaeth yr ysgol ynglŷn â'r hyn sy'n union yn mynd i ddigwydd i addysgeg yng nghyfnod allweddol 2, mae'r ansicrwydd ar hyn o bryd yn amlwg ac yn ddychrynlyd iawn. Hefyd, nodwyd fod diffyg ariani yn y maes yn broblem gan nad oes cyfle i dynnu athrawon allan o wersi i ymchwilio a rhoi amser i gyfarwyddo i'r newidiadau cyfoes yn addysg.

Felly, goblygiadau'r gwaith ymchwil yma yw pwysleisio pwysigrwydd rhoi cyfleoedd i bawb, yr holl rhanddeiliaid, gymryd rhan yn y broses o dderbyn gwybodaeth a hyfforddiant am ofynion y cwricwlwm newydd. Fe fydd angen hyfforddiant ar athrawon Cyfnod

Allweddol 2 i weithredu dulliau pedagogaidd newydd, sydd ar waith yn bresennol yn y Cyfnod Sylfaen. Rhaid cynllunio ar y cyd gydag athrawon sydd yn y cyfnod sylfaen a defnyddio arfer dda ysgolion lleol i ymgorffori syniadau arloesol ar draws yr ysgol gyfan. Rhaid sicrhau fod y 4 diben yn ganolog i'r dysgu hefyd gan ein bod yn ymwybodol o'r newid hynnu (Donaldson, 2015) felly nid yw'n digon dda i ni eistedd yn ôl ac aros am gwricwlwm newydd, rydym yn athrawon felly rhaid bwrw ymlaen. Ar lefel cenedleuthol, rhaid sicrhau cyllid digonol i ysgolion ddarparu profiadau cyfoethog ac unigryw i'r dysgwyr yn unol a gofynion y Meysydd Dysgu a Phrofiad newydd, cefnogir gan Plaid Cymru (2019) a dywedwyd:

“The concerns are echoed in recent statistics: £324 less is spent in real terms per pupil as compared to nine years ago; almost 50% of secondary schools in Wales are in deficit; a reduction of 1,416 or 5.6% in teacher numbers”

(Plaid Cymru, 2019)

Er na ddarganfuwyd gwybodaeth pellach am asesiadau'r dyfodol credir y bydd mwy o bwyslais yn cael ei roi ar strategaethau asesu ar gyfer dysgu a thalu mwy o sylw i ffordd y mae plant yn dysgu yn naturiol a gwneud cynnydd yn eu dysgu drwy'r 'camau cynnydd' (Donaldson, 2015, Adroddiad CAMAU, 2018).

O ganlyniad i gynnal y prosiect ymchwil datblygwyd nifer o werthoedd proffesiynol ar gyfer gwella datblygiad proffesiynol parhaus. Gwelwyd cynnydd yng ngwybodaeth a dealltwriaeth bersonol o ofynion y cwricwlwm newydd. Teimlwyd yn gyffrous wrth ystyried y bydd cyfle, fel darpar athro, i gymryd rhan flaenllaw, wrth ymgorffori gofynion y cwricwlwm newydd, mewn ysgol yn y dyfodol. Yn sicr, datblygwyd sgiliau cydweithio wrth gyd-weithio gyda rhanddeiliaid proffesiynol yn yr ysgol ac wrth arsylwi ac adfyfyrio ar arddulliau addysgu amrywiol a welwyd yn yr ysgolion, bwriedir mabwysiadu rhai o'r dulliau hyn wrth addysgu mewn ysgolion yn ystod Profiad Addysgu Proffesiynol (PAP3) ac yn y dyfodol. Pleser o'r mwyaf oedd cael cynnal prosiect ymchwil ar faes diddorol, cyfredol a phwysig iawn.

Teimlwyd yr ymchwilydd fod ymchwilo wedi fod yn gymorth mawr iddo yn y maes, agorwyd llygaid ynglun a'r ffordd mae addysg yn faes sy'n datblygu'n flynyddol. Hefyd dysgwyd bwysigrwydd dilyn arwainiaeth ysgolion i ystyried sut mae ysgolion gwahannol yn gweithredu nodweddion megis cyllid, neu ffyrdd o addysgu. (Nifer o eiriau: 6,200)

Rhestr o Gyfeirnodau

- Arthur, S., Crick, T., a Hayward, J. (2013) *Adroddiad y Grŵp Llywio TGCh i Lywodraeth Cymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: <http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/131008-ict-steering-group-report-cy.pdf> (Darllenwyd 13 Ebrill 2019).
- Ashman, G. (2017) '*Learning Lessons From The Failure of Scotland's "Curriculum for Excellence"*'. Ar gael: <https://gregashman.wordpress.com/2017/03/22/learning-lessons-from-the-failure-of-scotlands-curriculum-for-excellence/> (Darllenwyd 18 Ebrill 2019).
- BBC News. (2014) *Ysgol Gymraeg Aberystwyth Celebrates 75th Anniversary*. Ar gael: <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-mid-wales-29360528> (Darllenwyd 11 Ebrill 2019).
- Bennie, K. and Newstead, K. (1999) '*Obstacles to implementing a new curriculum*'.
- Blake, P. T, Pope. (2008) '*Developmental Psychology: Incorporating Piaget's and Vygotsky's Theories in Classrooms*'. 1, t. 59-67.
- Bradshaw, J., Ager, R., Burge, B. and Wheeler, R. (2010) *PISA 2009: Achievement of 15-Year-Olds in Wales*. Slough: NFER.
- Cambridge Centre for Sixth-form Colleges. (2017) '*Teaching Methods: Traditional vs Modern*'. Ar gael: <https://www.ccss.co.uk/news/traditional-vs-modern-teaching/> (Darllenwyd 11 Ebrill 2019).
- Currie-Knight, K. (2016) '*Why Schools Haven't Changed in Hundreds of Years*'. Free Thoughts Podcast, Rhagfyr 9.
- Estyn (2016a), *The Annual Report of her Majesty's Chief Inspector of Education and Training in Wales 2014-2015*. Estyn: Caerdydd.
- Estyn. (Dim dyddiad) '*Technoleg Ddigidol ym mywyd Ysgol Gynradd*'. Ar gael: <https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-ffeithiol/technoleg-ddigidol-ym-mywyd-ysgol-gynradd> (Darllenwyd 14 Ebrill 2019).

Estyn. (2018) *Cynllun cwricwlwm creadigol mwy hyblyg i ennyn diddordeb disgyblion*. Cyrchwyd: <https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/cynllun-cwricwlwm-creadigol-mwy-hyblyg-i-ennyn-diddordeb-disgyblion> (Mynediad 25 o Ebrill 2019).

F, Ervin. Perez, D. Gould, J. Hillman, S. Clark, L. (2014) *'A Global Curriculum? Understanding Teaching and Learning in the United States, Taiwan, India, and Mexico'* SAGE publications.

Fearn, H. (2017) *'Teachers are Leaving the Profession in Their Doves – and Little Wonder.'* Ar gael: <https://www.independent.co.uk/voices/teachers-crisis-education-leaving-profession-jobs-market-doves-who-would-be-one-a7591821.html> (Darllenwyd 15 Ebrill 2019).

Ferguson, D. (2018) *'“I will Never Return to Teach in England”: The UK Teachers Finding Refuge Abroad'*. Ar gael: <https://www.theguardian.com/education/2018/oct/02/never-return-teach-england-refuge-abroad> (Darllenwyd 16 Ebrill 2019).

Funding - Levačić, R. (2006), *“Funding schools by formula”, paper presented at the International Conference on Educational Systems and the Challenge of Improving Results.*

Independent News for International Students. (2019) *'Forcing kids to sit long at desks for too long is bad for their learning'*. Ar gael: <https://www.studyinternational.com/news/forcing-kids-desks-bad-for-learning/> (Darllenwyd 12 Ebrill 2019).

Kolb, D. A. (1984). *Experiential learning: Experience as the source of learning and development*. Englewood Cliffs: Prentice Hall.

Llywodraeth Cymru (2014b), *Qualified for Life: An Education Improvement Plan for 3 to 19-Year-Olds in Wales*. Llywodraeth Cymru: Caerdydd.

Llywodraeth Cymru. (2013) *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2015) *'Dyfodol Llwyddiannus: Crynodeb o adroddiad yr Athro Graham Donaldson'*. Ar gael: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018->

[03/dyfodol-llwyddiannus-crynodeb-o-adroddiad-yr-athro-graham-donaldson.pdf](#) (Darllenwyd 14 Ebrill 2019).

Llywodraeth Cymru. (2015) *Cwricwlwm i Gymru - Cwricwlwm am Oes*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2015) *Cyfnodau Allweddol 2-4*. Ar gael: <https://learning.gov.wales/resources/collections/key-stages-2-4?lang=cy> (Darllenwyd: 10 Ebrill 2019).

Llywodraeth Cymru. (2018) *Fframwaith Sgiliau ar Gyfer Dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2018) *Sut Mae fy Mhlentyn yn Datblygu yn y Cyfnod Sylfaen?*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. (Dim dyddiad) *'Rhaglen Dysgu yn y Gymru Ddigidol – Budsoddi Mewn Band Eang'*. Ar gael: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/cwestiynau-cyffredin-y-rhaglen-dysgu-yn-y-gymru-ddigidol.pdf> (Darllenwyd 15 Ebrill 2019).

Llywodraeth Prydeinig. (Dim dyddiad) *The National Curriculum*. Ar gael: <https://www.gov.uk/national-curriculum> (Darllenwyd: 8 Ebrill 2019).

OECD. (2014) *'Improving Schools in Scotland: An OECD Perspective'*. Ar gael: <http://www.oecd.org/education/school/Improving-Schools-in-Scotland-An-OECD-Perspective.pdf> (Darllenwyd 18 Ebrill 2019).

OECD. (2017) *'The Welsh Education Reform Journey'*. Ffrainc

Piaget - Dahl, B. (1996). *A synthesis of different psychological learning theories? Piaget and Vygotsky*.

PIGION. (2017) *'Sut Mae Cymru yn Perfformio yn PISA a Beth yw Targed Llywodraeth Cymru?'*. Ar gael: <https://seneddymchwil.blog/2017/07/04/sut-mae-cymru-yn-perfformio-yn-pisa-a-beth-yw-targed-llywodraeth-cymru/> (Darllenwyd 15 Ebrill 2019).

Plaid Cymru. (2019) '*Time is Running Out to Solve The Funding Crisis in Wales*'. Ar gael: https://www.partyof.wales/wales_schools_are_in_a_funding_crisis_sian_gwenllian (Darllenwyd 27 Ebrill 2019).

Schwarz, G. & Cavener, L. A. (1994). '*Outcome-based education and curriculum change: Advocacy, practice and critique*'. Journal of Curriculum and Supervision, 9, 326-338.

Scottish Government. (Dim dyddiad) '*School Curriculum and Qualifications*'. Ar gael: <https://www.gov.scot/policies/schools/school-curriculum/> (Darllenwyd 18 Ebrill 2019).

Snyder, J., Bolin, F. & Zumwalt, K. (1992). *Curriculum Innovation*. Dyfynwyd yn Jackson, P.W. (Ed.), '*Handbook of Research on Curriculum*' (pp. 402-435) Efrog Newydd, America: Macmillan.

Survey - Parasuraman, A. *Marketing Research - 2nd Edition*. Addison-Wesley Publishing Company, Inc., 1991.

The Conversation. (2017) '*Why Global Education Rankings Don't Reveal the Whole Picture*'. Ar gael: <https://theconversation.com/why-global-education-rankings-dont-reveal-the-whole-picture-72134> (Darllenwyd 17 Ebrill 2019).

Vygotsky, L. S. (1980). *Mind in society: The development of higher psychological processes*. Harvard university press.

Wikipedia. (2019) *Primary Education in Wales*. Ar gael: https://en.wikipedia.org/wiki/Primary_education_in_Wales (Darllenwyd 8 Ebrill 2019).

Williams, D. (2018) '*Fframwaith Cymhwysedd Digidol*'. Ar gael: <https://prezi.com/jknwr2i735hs/fframwaith-cymhwysedd-digidol/> (Darllenwyd 14 Ebrill 2019).

Atodiad 2: Copi o'r holiadur

1. Beth yw eich rôl yn yr Ysgol?

- ☐ Athro/awes
- ☐ Cynorthwydd
- ☐ Prifathro/awes

2. Sawl Blwyddyn ydych wedi bod ym myd addysg?

- ☐ 0 - 5 mlynedd
- ☐ 6 - 10 mlynedd
- ☐ 11 - 15 mlynedd
- ☐ 16 + o flynyddoedd

3. Yn eich barn chi, sut fydddech yn beirniadi'r cwricwlwm bresenol allan o 5? (5 yn rhagorol)

4. A ydych yn edrych ymlaen at ddiwigiad i'r cwricwlwm yng Nghymru?

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Ddim yn siwr

5. A oes digon o gefnogaeth ar hyn o bryd gan yr awdurdod lleol i ymgorffori ddibenion y cwricwlwm newydd?

- ☐ Oes
- ☐ Nac oes
- ☐ Ychydig

6. Ydych chi'n pryderu o gwbl am ddatblygiad y cwricwlwm newydd yng Nghymru?

- ☐ Ydw
- ☐ Ychydig
- ☐ Nac ydw

7. Ydych chi'n datblygu eich addysgu i gyd-fynd gyda ddibenion Donaldson?

- ☐ Ydyn
- ☐ Nac ydyn
- ☐ Nid yw'n berthnasol

8. Ydy arsylwi arfer dda o ysgolion eraill yn gymorth at weithrediad effeithiol yn eich Ysgol?

- ☐ Ydy
- ☐ Weithiau
- ☐ Nac ydy
- ☐ Ddim wedi arsylwi arfer dda

9. Yn eich barn chi, gallwch chi awgrymu un mantais bosib o'r cwricwlwm newydd?

10. Yn eich barn chi, gallwch chi awgrymu un cyfyngiad o'r cwricwlwm newydd?

Atodiad 3: Cwestiynau cyfweliadau plant

1. Wyt ti'n mwynhau dod i'r ysgol?
2. Wyt ti'n mwynhau'r gwersi yn yr ysgol?
3. Wyt ti'n hoffi eistedd ar y mat yn y dydd?
4. Oes unrhywbeth yn wahannol am y dosbarth y flwyddyn hon?
5. Oes cyfleuoedd yn y diwrnod i weithio'n annibynnol?
6. Wyt ti'n mwynhau gweithio'n annibynnol?
7. A oes hawl gyda ti i fynegi barn am beth hoffte ti ddysgu am?
8. Ydych chi'n defnyddio heriau yn y dosbarth?
9. Wyt ti'n dysgu'n well mewn grwp neu yn unigol?
10. Beth yw dy hoff beth am y steil newydd o ddysgu?

Atodiad 4: Nodiadau arsylwadol Ysgol A

Rhesymeg:

Penderfynwyd archwilio i baratoad ysgolion i'r cwricwlwm newydd yng Nghymru gan ei fod yn berthnasol iawn ym maes addysg yng Nghymru heddiw. Nid wyf chwaith wedi cael llawer o brofiad ar addysgu i ddatblygu fy hun, felly trwy dewis ymchwilio i ddatblygiad y cwricwlwm rwyf yn gallu treilio amser ar lawr y dosbarth gyda phlant yn yr ysgol. Rheswm arall am ddewis y maes yw'r cyfle rhodd y cwricwlwm i mi ymgeisio am swyddi yn y dyfodol agos. Drwy fynd o amgylch ysgolion yn arsylwi byddaf yn gallu creu amryw o gysylltiadau gyda athrawon eraill a fydd yn help i gael fy enw allan i'r gymuned addysgol. Rwyf yn unigolyn weithgar iawn â rwyf eisiau creu perthnasoedd cararnhaol gyda ysgolion gan fyddaf yn ymgeisio am swyddi mewn ychydig o fisoedd.

Golwg Cyntaf o'r Ysgol:

Un factor sy'n amlwg iawn pan mynychais yr ysgol am y diwrnod cyntaf oedd y cynhesrwydd a chroesawiad a dderbyniais gan y staff a'r plant. Roedd yna wir deimlad o hapusrwydd yn yr ysgol sy'n feithrin ar draws yr ysgol gyfan. Roedd yr atmosffêr yn yr ystafell staff yn dwym ac yn garedig gyda phob aelod o staff yn cyflwyno eu hunain ac yn awyddus i sgwrsio gyda ni, y myfyrwyr.

Argraff arall oedd yn fy nharo yn syth oedd lefel y Gymraeg yn yr ysgol. Roedd y plant yn awyddus iawn i siarad Cymraeg gyda'i gilydd yn y dosbarth ac ar y buarth. Arsylwa fod y syniad o 'criw cab' yn elfen allweddol o ddatblygiad y Gymraeg gan fod y plant yn cymeryd cyfrifoldeb dros yr hyn maent yn eu gwneud gyda'i gilydd. Dilyna argymhell Donaldson o sicrhau fod y plant yn ganolog ac yn gyfrifol am ddysgu eu hunan, hoffwyd hyn yn fawr iawn.

Addysgu yng Nghyfnod Allweddol 2:

Mae'r dysgu a arsylwyd yng nghyfnod allweddol 2 yn wahannol iawn i'r hyn a gwelwyd yn y gorffennol. Gwna ddefnydd dda iawn o'r lle sydd i gael yn yr ysgol gan addysgu blwyddyn 5 a 6 yn y neudadd ac yn y dosbarth. Nid yw'n gyfrinach fod gwagle ddigonol yn brin iawn yn yr ysgol felly mae'r syniad a'r weithrediad o addysg mewn ardaloedd gwahannol yn dechneg effeithiol. Arsylwyd fod cymryd aelodau allan o'r dosbarth yn weithrediad sy'n hybi ymddygiad dda yn y dosbarth. Arsylwyd fod llai yn y dosbarth yn allweddol i les y plant gan fod llai o blant mewn un ystafell fechain. Golyga hyn fod gan y plant cyfle i fynegi eu hunain yn fwy heb feirniadaeth o aelodau arall y dosbarth.

Wrth sgwrsio gyda phlant yn dosbarthiadau mae'n amlwg fod y plant yn mwynhau'r dechnegau newydd o ddysgu. Dywed plant ym mlwyddyn 3 fod dysgu ar y mat yn llawer o hwyl a nid ydynt yn hôff iawn o fod o amgylch byrddau llawer yn y dosbarth. Roedd yn bleser siarad am addysg gyda'r plant oherwydd roedd yn amlwg eu fod yn gwybod beth maent yn hoffi gwneud a sut maent yn hoffi dysgu.

Bum ddigon ffodus i arsylwi a chymerid yr awenau yn sesiwn 'clonc' ym mlwyddyn 5 a 6. Gwela fod y sesiwn yn gymorth fawr i blant dyfu mewn hyder yn yr iaith Gymraeg. Mae'r sesiwn yn hwyl ac yn heriol ond heb amheuaeth roedd yr eirfa yn allweddol i ddysgu gwersi am fywyd i'r plant. Hoffa yn fawr y terminoleg "gwthia'r safon" a "a dyma fy nghwaith gorau" sy'n sicrhau fod y plant wir yn canolbwyntio ac yn ceisio'i gorau ym mhob sesiwn.

Yn ogystal a'r plant mae'r staff yn cyd-weithio gyda'i gilydd yn arbenig i sicrhau safonau a lles ar draws yr ysgol. Mae cyd-weithio'r staff yn amlwg megis y defnydd o gynorthwyon ar draws y cyfnod. Mae'r cynorthwyon yn cymryd grwpiau ac yn barod i helpu ar unrhyw funud, helpa hyn rhediad yr ysgol a galluogir athrawon i flaenoriaethu agweddau eraill o ddysgu.

Defnyddir dechnegau amrywiol i hybi annibyddiaeth yn yr ysgol sy'n sgil hanfodol i'r plant. Synwyd gyda annibyddiaeth y plant a'i gallu i gwblhau tasgiau heb arwainyddiaeth cyson o'r athrawon dosbarth. Amlyca'r daith Gaerdydd sgiliau anybyddiaeth y plant a chynniga hefyd profiadau amrywiol iddynt sy'n cyfoethogi cymeriadau y plant. Hoffa'r daith yn fawr iawn ac mae'n syniad o addysgu trwy profiadau yn sail i Donaldson felly mae'r ysgol yn ceisio'n aml i amrywio'r addysg i gynnig pethau gwahannol i'w plant.

Argymhellion:

Arsylwyd blwyddyn 5 a 6 yn defnyddio ardaloedd tu allan o'r dosbarth megis pan fyddai'r plant yn gwneud archwiliad gwyddonol ond ni arsylwyd yr un dechneg gyda flwyddoedd 3 a 4. Pe bai'r dechneg yn cael ei rhannu gellir datblygu amgylchedd dysgu neu ardal dysgu sy'n gallu cael ei rhannu gyda'r cyfnod allweddol i gyd.

Efallai gall yr ysgol datblygu yn fwy gan rhoi ffocws ar ardaloedd neu heriau yn y dosbarthiadau. Byddai hyn yn help i ddilyn argymhellion Donaldson ond yn amlwg nid yw pawb yn sicr eto ar beth sydd i ddod o'r cwricwlwm newydd.

Mae'r staff yn rhai gweithgar ac yn edrych tua'r dyfodol at beth sydd i ddod yn addysg yng Nghymru. Hoffaf ddiolch i'r ysgol am y cyfle i ddod ac i brofi beth oedd ganddynt i gynnig fel Ysgol Gymraeg. Mae'r profiad wedi cynnig llawer o syniadau i mi i'r dyfodol megis y criw cab a clonc. Edrychaf ymlaen at fy mhrofiad nesaf a gobeithiaf y gellir ddychwelyd i'r ysgol rhyw ddydd i gynnig cymorth neu yn y dyfodol fel athro.